**Jeff Cuthbert AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau**
**Deputy Minister for Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-432
Ein cyf/Our ref JC/05485/12

William Powell AC

Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Rhagfyr 2012

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Tachwedd sy'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i argymell na ddylai'r lluoedd arfog fynd i ysgolion at ddibenion recriwtio. Cafodd y llythyr hwn ei anfon ataf gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Rwy'n ymateb gan bod y mater hwn o fewn fy mhortffolio i.

Yn gyntaf, hoffwn bwysleisio mai y Corff Llywodraethu sy'n rheoli'r defnydd o safle'r ysgol. Y pennaeth sy'n gyfrifol am y trefnu mewnol, y cynllunio a rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd, sy'n cynnwys penderfynu pwy sy'n cael dod ar safle'r ysgol. Felly y pennaeth sy'n gyfrifol am benderfynu pwy ddylai gael dod i'r ysgol i siarad â'r disgyblion. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau uniongyrchol yn y mater hwn, ond rwyf am fod yn glir hefyd nad ydym yn dymuno rhwystro cysylltiad positif â chynrychiolwyr y lluoedd arfog.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweld bod darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd a chytbwys i bobl ifanc am yrfaoedd yn elfen allweddol o'i hagenda dysgu gydol oes. Gyrfa Cymru sy'n darparu'r gwasanaeth hwn. Mae gan Ysgolion a Chyrff Llywodraethu gyfrifoldeb i ymateb i anghenion disgyblion a darparu'r wybodaeth briodol am yrfaoedd sydd o fewn y Fframwaith Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Bwriad hyn yw datblygu y sgiliau sydd eu hangen mewn disgyblion i wneud penderfyniadau doeth a rheoli eu llwybrau gyrfa eu hunain. Dylai ysgolion gynorthwyo disgyblion hefyd drwy eu harwain at gyngor a chanllawiau ar yrfaoedd posib. O ran hyn mae gan bobl ifanc mewn addysg uwchradd yr hawl i dderbyn rhaglen o gymorth o fewn yr ysgol o 11 mlwydd oed, i helpu iddynt wneud y newid i ddysgu ôl-16 neu gyflogaeth. Mae ymweliadau addysgol gan amrywiaeth eang o gyflogwyr posib yn digwydd fel rhan o hyn.

Mae'n rhaid i Gyrff Llywodraethu wneud eu penderfyniadau ynghylch pa sefydliadau ddylai gael ymweld ag ysgolion o fewn y cyd-destun hwn. Byddai peidio â gadael i'r lluoedd arfog ymweld ag ysgolion, fel y mae'r ddeiseb hon yn awgrymu, olygu bod rhai disgyblion o dan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jeff.Cuthbert@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

anfantais, gan na fyddant wedi derbyn yr wybodaeth am yr ystod lawn o yrfaoedd sydd ar gael, gan gynnwys rhai sy’n cynnig hyfforddiant o safon uchel iawn.

Best wishes

**Jeff Cuthbert AC**
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau